Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**

# Teithio llesol
Crynodeb o grwpiau ffocws

## Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i Deithio Llesol. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar bum grŵp ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru, gan gynnwys Sir Benfro, Blaenau Ffestiniog, Aberpennar a Llanelli. Bu'r grwpiau ffocws yn trafod rhwystrau canfyddedig i deithio llesol, arferion da presennol a meysydd lle mae angen gwella.

Cafwyd grwpiau penodol er mwyn cael barn pobl o dan 16, dros 60, rhieni a grwpiau anabledd

### Rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws

1. Amgueddfa Lechi Cymru Blaenau Ffestiniog.
2. Ysgol Gynradd Johnston. Hwlffordd, Sir Benfro
3. Pobl yn Gyntaf Sir Benfro. Preseli Sir Benfro
4. Eglwys Cwm Cynon. Aberpennar, Cwm Cynon
5. Ysgol y Bynea, Llanelli

### Cwestiynau Trafod

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod y prif rwystrau i feicio a cherdded ac i ystyried yr hyn y gellid ei wneud i annog pobl i feicio a cherdded mwy. Cymerodd y cyfranogwyr ran mewn sesiwn ryngweithiol hefyd i esbonio gwaith y Pwyllgor, yr ymchwiliad a'r Cynulliad.

# Canfyddiadau'r grwpiau ffocws.

# Beth yw'r rhwystrau i feicio a cherdded mwy?

## Datgelodd dadansoddiad data ansoddol naw thema gyffredinol ar draws y pum grŵp ffocws.

### Diogelwch ar y ffyrdd:

Cytunodd y cyfranogwyr mai diogelwch ar y ffyrdd yw'r rhwystr mwyaf sylweddol i fod yn deithiwr llesol. Nodwyd fod cyflymder a chyfaint y traffig, ynghyd ag ofn gyrwyr peryglus, yn bryder gan bob grŵp ffocws. Tynnodd llawer o'r cyfranogwyr sylw at eu pryderon ynglŷn â gyrwyr peryglus ac agweddau negyddol canfyddedig gyrwyr tuag at feicwyr a cherddwyr. Cytunodd cyfranogwyr o ardaloedd gwledig fod ffyrdd gwledig yn beryglus i feicwyr a cherddwyr, gan nad oes gan lawer o ffyrdd gwledig sy'n cysylltu trefi a phentrefi, balmentydd.

Diogelwch ar y ffyrdd oedd y pryder mwyaf sylweddol i blant a rhieni a gymerodd ran. Trafododd pobl ifanc y ffaith bod eu rhieni yn gwrthod caniatáu iddynt feicio i'r ysgol oherwydd pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Teimlai cyfranogwyr iau hefyd nad oes digon o fannau diogel i groesi, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Mae'r ffyrdd yn anodd i'w croesi oherwydd bod gormod o geir cyflym ac nid oes digon o groesfannau sebra imi groesi'r ffyrdd prysur
- Mae rhai pobl yn wirion iawn ac yn gyrru eu ceir yn beryglus. Mae gormod o gythraul gyrru, sy'n gwneud imi deimlo'n anniogel pan fyddaf ar fy meic
- Mae'r ffyrdd yn brysur iawn ac mae'r ceir yn teithio mor gyflym. Nid yw fy rhieni am imi gerdded i'r ysgol oherwydd eu bod yn meddwl ei bod yn rhy beryglus imi

Dywedodd Eglwys Cwm Cynon:

- Bûm yn beicio i’r gwaith bob dydd am saith mlynedd. Ond gall fod yn beryglus iawn. Mae lorïau'n gyrru heibio mor agos a chefais fy nhaflu oddi ar fy meic gan gar. Nid yw gyrwyr yn gweld beicwyr
- Pan fyddaf yn mynd allan i gerdded, mae ceir cyflym yn gryn bryder imi, yn enwedig ar hyd y brif ffordd yn Aberpennar

Dywedodd Ysgol y Bynea:

- Gall agwedd gyrwyr ceir fod yn rhwystr.  Mae nifer o ddisgyblion wedi cael pobl yn gweiddi, rhegi a chanu corn arnynt wrth iddynt deithio ar y ffyrdd ar feic.

## Seilwaith

Roedd seilwaith yn thema allweddol ym mhob grŵp ffocws. Teimlai'r cyfranogwyr nad oedd llwybrau beicio a cherdded wedi’u cysylltu’n effeithiol neu heb eu cysylltu o gwbl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd llawer o’r cyfranogwyr na allent gyrraedd llwybr beicio na llwybr cerdded o'u cartref ac roedd angen iddynt yrru neu fynd ar fws i gyrraedd y llwybr agosaf. Teimlai'r cyfranogwyr hefyd nad oes digon o lwybrau cerdded a beicio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Cytunodd y grwpiau ffocws fod llwybrau cerdded a beicio ar gyfer hamddena o safon dda iawn a chyfeiriodd llawer at lwybrau arfordirol. Fodd bynnag, cytunodd yr holl grwpiau ffocws nad oes cysylltiad rhwng llwybrau cerdded a beicio neu nad ydynt yn bodoli, sy'n eu rhwystro rhag cerdded i'r gwaith, i’r siopau neu i’r ysgol.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Nid oes llawer o lwybrau lle’r wyf i'n byw. Ni allaf gerdded ar hyd y prif ffyrdd oherwydd nad oes ond glaswellt, a dim palmant. Nid oes palmant y tu allan i fy nhŷ hyd yn oed.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru

- Nid yw'r llwybrau beicio wedi'u cysylltu’n iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nid oes palmant, heb sôn am draciau beicio, i uno trefi ar hyd ffyrdd gwledig

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Mae parc trampolîn yn Hwlffordd ac os nad oes gennych gar, mae'n rhaid ichi gerdded hanner milltir ar hyd ffordd heb lwybr i'w gyrraedd. Dyma'r ffordd sy'n mynd â loriau i Abergwaun. Dyma'r peth mwyaf brawychus erioed.
- Lle'r wyf i'n byw, nid oes llwybr ac mae fy nhŷ ar fin y ffordd, felly nid ydym yn tueddu i gerdded llawer. Nid oes llwybrau troed mewn ardaloedd gwledig. Nid oes llwybrau troed rhwng y safleoedd bws hyd yn oed.

Mae ysgolion uwchradd Hwlffordd, Syr Thomas Picton a Tasker Milward, yn cau gan greu ysgol 11-18 newydd. Bydd disgyblion Johnston bellach yn mynychu Ysgol Gyfun Aberdaugleddau o fis Medi 2018. Mae'r pellter rhwng Johnston ac Aberdaugleddau tua 2 i 3 milltir. Ni ddarperir bws ysgol. Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynglŷn â'r ffordd brysur (yn enwedig yn ystod yr adegau pan fydd plant yn teithio i'r ysgol ac oddi yno) lle nad oes palmant na llwybr beicio.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Trwy beidio â chael llwybr neu lwybr beicio inni pan fyddwn yn mynd i'n hysgol gyfun newydd, maent yn ein hannog i fynd yn y car, gan fynd yn erbyn y cynllun teithio llesol
- Ni fydd bws i blant Aberdaugleddau a Hwlffordd fynd i'r ysgol. Bydd hynny'n effeithio arnom, yn enwedig gan fod y ffordd yn rhy beryglus i gerdded neu feicio arni. Sut y byddwn ni'n cyrraedd yr ysgol?

## Amser a phellter

Cytunodd cyfranogwyr o ardaloedd gwledig fod llawer o gyrchfannau yn rhy bell i gerdded iddynt. Tynnodd y rhieni sylw at yr anawsterau o gyfuno taith i'r ysgol â thaith i'r gwaith, na fyddai'n caniatáu iddynt ystyried beicio neu gerdded fel dewis arall.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Mae fy rhieni'n gweithio ac mae'n rhaid iddynt fynd i'r gwaith yn y bore felly maent yn fy ngadael yn yr ysgol ar y ffordd, felly ni allaf gerdded na mynd ar fy meic

- Mae rhai pobl yn byw ymhell o bobman ac mae'n rhy bell i gerdded i'r ysgol. Ond mae rhai pobl a allai gerdded ond nad ydynt yn gwneud hynny yn ddiog.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru

- Mae'r pellter i'r gwaith yn ei gwneud yn amhosibl imi gerdded

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Mae'r lleoedd yr hoffwn gerdded iddynt yn rhy bell, fel canol y dref, y siopau a'r meddygon

Dywedodd Eglwys Cwm Cynon:

- Mae mor bwysig cadw'n annibynnol pan fyddwch yn hŷn. Pan fyddwch yn byw yn y dref, gallwch gerdded i unrhyw le. Byddai rhagor o lwybrau cerdded yn ddefnyddiol. Ond mae'r gallu i gerdded i rywle yn dibynnu ar ba mor bell yr ydych yn byw o'ch amwynderau lleol, fel y siopau neu'r meddyg

## Y Tywydd

Nododd pob un o'r cyfranogwyr fod tywydd gwael yn rhwystr i feicio neu gerdded mwy. Trafododd y grwpiau ffocws y peryglon sy'n gysylltiedig â beicio mewn gwynt a glaw trwm. Cytunodd llawer o'r cyfranogwyr benywaidd na fyddent byth yn ystyried beicio neu gerdded i'r gwaith yn y glaw gan nad oedd yr amser ychwanegol i gael cawod wedyn yn ymarferol.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Nid yw rhai pobl yn beicio oherwydd y glaw a'r tywydd gwael. Gall fod yn oer iawn ac os yw'n llithrig gallech syrthio ar y ffordd

- Mae'r tywydd yn ofnadwy ac os yw'n bwrw glaw nid ydych am gerdded oherwydd byddwch yn gwlychu ac wedyn rydych yn eich dillad gwlyb drwy'r dydd yn yr ysgol

## Diogelwch personol

Thema allweddol ym mhob grŵp ffocws oedd ofn cerdded neu feicio yn y tywyllwch ac ar lwybrau sydd wedi'u goleuo'n wael. Tynnodd y cyfranogwyr ifanc a'r rhieni sylw at eu hofnau mewn perthynas â 'pherygl dieithriaid', term a

ddefnyddiwyd sawl gwaith i ddangos canfyddiad plant o ddiogelwch personol, yn enwedig wrth gerdded neu feicio yn y tywyllwch.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru

- Mae diogelwch yn broblem, yn arbennig wrth gerdded i rywle ar eich pen eich hun. Nid wyf yn teimlo'n ddiogel.

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Mae goleuadau stryd yn broblem fawr. Rwy'n teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â mynd allan yn y tywyllwch. Rwy'n cael trafferth gweld yn y dydd felly mae'r nos yn waeth fyth ac mae'n fy mhoeni
- Rwy'n hoffi cerdded, ond dim ond pan fydd gen i ofalwr gyda mi oherwydd nid wyf yn hoffi cerdded ar fy mhen fy hun. Mae'n ymwneud â hyder

Dywedodd Ysgol y Bynea

- Mae angen golau gwell ar hyd llwybrau cerdded a beicio. Nid ydym yn teimlo'n ddiogel yn teithio ar ein pen ein hunain drwy ardaloedd sydd wedi'u goleuo'n wael yn ystod misoedd y gaeaf.

## Anabl

Roedd cyfranogwyr ag anableddau'n glir iawn nad oedd beicio yn ddewis iddynt hwy; roedd gan lawer o'r cyfranogwyr anableddau a oedd yn effeithio ar eu golwg neu eu balans. Teimlai llawer o'r cyfranogwyr ag anableddau hefyd nad oedd bod yn deithiwr llesol yn ddewis iddynt hwy gan nad oeddent yn hyderus i gerdded ar eu pen eu hunain.

Disgrifiodd rhai o'r cyfranogwyr hŷn sut yr oedd problemau iechyd, ynghyd â byw mewn ardaloedd gwledig a mynyddig, yn golygu nad oedd cerdded neu feicio yn ddewis iddynt hwy

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Ni allaf reidio beic oherwydd fy anableddau. Mae gennyf broblemau balans sy'n golygu na allwn reidio beic hyd yn oed pe byddwn yn dymuno gwneud hynny.

- Nid wyf yn hyderus ond rwyf am fynd allan mwy. Pan fyddaf yn cerdded yn y nos, os gwelaf gar yn dod, byddaf yn cuddio.

Dywedodd Eglwys Cwm Cynon:

- Nid wyf yn berchen ar feic ac ni fyddwn am feicio. Rwyf yn rhy hen ac mae gennyf ofn syrthio. Rwy'n reidio beic sefydlog yn y gampfa i gadw'n heini ond ni fyddwn byth yn beicio ar y ffordd
- Mae gormod o fryniau mawr. Os byddwch yn mynd i lawr mae'n rhaid i chi fynd yn ôl i fyny!

Dywedodd Ysgol y Bynea:

- Mewn rhai sefyllfaoedd, mae teithio llesol yn golygu dringo cymaint o elltydd serth fel bod pobl ifanc yn cwyno eu bod wedi blino'n lân erbyn iddynt gyrraedd eu cyrchfan.

## Llygredd

Trafododd y grŵp ffocws o Aberpennar sut yr oedd tagfeydd traffig a llygredd yn rhwystr sylweddol i feicio neu gerdded mwy. Disgrifiodd rhai cyfranogwyr anhawster wrth anadlu mygdarth o lorïau mawr.

Dywedodd Eglwys Cwm Cynon:

- Gall y mygdarth o'r ceir fod yn ddrwg iawn. Ni fyddwn yn mwynhau reidio beic gan fod y mygdarth yn mynd ar eich ysgyfaint ac yn ei gwneud yn anodd anadlu
- Ni allaf gerdded ar hyd y brif ffordd ar adegau prysur. Mae'r llygredd o'r ceir yn gwneud i fy llygaid ddyfrio a gall fod yn anodd anadlu

## Cost

Trafododd rhai grwpiau ffocws gost prynu a chynnal beic, ynghyd â chost atgyweirio beic sydd wedi torri. Trafododd y cyfranogwyr iau hyn yn fanylach gan esbonio bod gan rai ohonynt, a llawer o blant yn yr ysgol, sgwter yn hytrach na beic gan eu bod yn rhatach i rieni eu prynu.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru:

- Ni all pawb brynu beic ac mae'n anodd gofalu amdano hefyd. Gall fod yn eithaf drud, yn enwedig os caiff ei ddwyn.

### Cynnal a chadw llwybrau

Ysgol y Bynea oedd yr unig grŵp ffocws a drafododd cynnal a chadw llwybrau. Roedd y materion allweddol a godwyd yn cynnwys cadw'r llwybrau drwy ddileu sbwriel, baw cŵn a chynnal gwrychoedd. Bu’r cyfranogwyr hefyd yn trafod arwynebau anwastad a’r effaith y gallai hynny ei chael ar feicio a cherdded yn ddiogel.

# Canfyddiadau'r grwpiau ffocws.

## Beth ellir ei wneud i gael gwared â'r prif rwystrau i feicio a cherdded?

Datgelodd dadansoddiad data ansoddol bum thema gyffredinol ar draws y pum grŵp ffocws.

### Llogi beiciau

Trafododd yr holl grwpiau ffocws logi beiciau hygyrch fel ffordd o oresgyn rhwystrau i feicio mwy ac fel ffordd o fynd i'r afael â chost ganfyddedig prynu a chynnal beic.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru:

- Beth am system lle gallwch logi beic am ddim. Gallech ei alw'n 'Beiciau Benthyg', fel y cynllun 'Boris Bike'?

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Nid oes gennyf feic. Mae gennyf sgwter. Efallai y gallai ysgolion a chynghorau logi neu fenthyg beiciau i blant fynd i'r ysgol.

## Seilwaith

Trafododd yr holl grwpiau ffocws yr angen am ragor o lwybrau a chysylltedd gwell. Roedd y mater hwn yn arbennig o gyffredin mewn ardaloedd mwy gwledig. Bu’r cyfranogwyr, yn enwedig y rhai iau, yn trafod eu dymuniad am lwybrau dynodedig sydd ar wahân i'r ffordd. Yn ogystal, trafodwyd gwell cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi pobl i fynd o'u cartref i'r llwybrau cerdded. Gwelodd y cyfranogwyr y potensial i logi beic ar ôl i drafnidiaeth gyhoeddus fynd â hwy i orsaf llogi beiciau.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru:

- Rhwydwaith beicio da. Gallech ddefnyddio bws cymunedol i helpu pobl e.e. rhai bysiau arbennig i deithio yn ystod oriau gwaith e.e. 7am-8am a 5pm-6pm i gysylltu’r llwybrau a chasglu pobl nad ydynt am feicio'r holl ffordd

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Dylem gael llwybrau beicio ar wahân, nad ydynt yn rhan o'r brif ffordd. Byddwn yn teimlo'n fwy diogel ar y ffyrdd pe na bai ceir yn gyrru wrth fy ochr.
- Hoffwn pe bai gennym ragor o ferched lolipop i'n helpu i groesi'r ffyrdd prysur a rhagor o groesfannau sebra
- Mae angen palmant arnom. Nid oes gan lawer o'n ffyrdd gwledig balmentydd ac mae’n rhaid ichi gerdded ar y ffordd. Gallem gael bylchau mwy rhwng y ffordd a'r llwybr gyda chroesfannau mwy diogel a hebryngwyr croesfannau

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Mae angen llwybr beicio nad yw’n rhan o'r ffordd ar bobl sy'n byw mewn pentrefi gwledig. Mae angen cysylltu ein seilwaith yn well fel y gallwn fynd o'n tai i'r dref. Hoffwn feicio o gwmpas y dref ond ni allwn feicio’r holl ffordd yno.

Dywedodd Eglwys Cwm Cynon:

- Byddai'n llawer mwy diogel pe bai gennym lwybrau beicio penodedig nad ydynt yn rhan o'r brif ffordd.

## Diogelwch ar y ffyrdd:

Roedd rhieni a phobl ifanc yn y grwpiau ffocws yn nodi diogelwch ar y ffyrdd fel y mater pwysicaf i'w ddatrys er mwyn annog pobl i feicio neu gerdded mwy. Trafododd pob grŵp ffocws sut y gallai mwy o groesfannau ffordd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, cyfyngiadau cyflymder arafach a dosbarthiadau diogelwch beicio yn yr ysgol annog mwy o bobl i fod yn deithwyr llesol.

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Rydym yn cael wythnos yn yr ysgol i ddysgu am ddiogelwch beicio. Nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon. Hoffwn gael cymorth i feicio’n well a dylai ysgolion roi siacedi gweledol uchel i blant sy'n beicio i'r ysgol fel gwobr am feicio
- Nid yw'r llwybrau beicio’n ddigon amlwg. Gallem gael llygaid cathod ar hyd y llwybr fel y gallai gyrwyr ceir ein gweld yn well
- Nid wyf yn hoffi cerdded ar fy mhen fy hun. Efallai y gallai rhieni ac athrawon ddechrau grŵp cerdded i'r ysgol. Byddech yn teimlo'n fwy diogel gyda'ch ffrindiau ac oedolyn i ofalu amdanoch
- Rhagor o ferched / dynion lolipop i gynorthwyo disgyblion i groesi ffyrdd prysur gyda mannau mwy diogel i gerddwyr groesi.

Dywedodd Pobl yn Gyntaf Sir Benfro:

- Pan oeddwn yn fy arddegau, bûm ar gwrs diogelwch beicio. Hoffwn reidio beic ond byddai angen cymorth arnaf i ddysgu sut i feicio'n ddiogel eto

Dywedodd Ysgol y Bynea:

- Gwersi cynnal a chadw beic (roedd llawer o ddisgyblion yn pryderu am addasrwydd eu beiciau ar gyfer y ffordd).
- Mwy o gynlluniau cerdded / beicio i'r ysgol gyda mannau cyfarfod dynodedig fel y gall disgyblion deithio'n llesol gyda'i gilydd.
- Dylai gwisgoedd gweledol uchel fod ar gael i ddisgyblion sydd am gerdded neu feicio i'r ysgol.
- Rhagor o wersi diogelwch beicio yn yr ysgol.

- Gwelodd nifer o ddisgyblion yr angen am ryw fath o lain glustogi rhwng palmentydd / llwybrau beicio a'r ffordd, gan eu bod wedi bod mewn sefyllfaoedd brawychus lle’r aeth ceir ar y palmentydd yn ddamweiniol.

## Diogelwch personol

Wrth drafod sut i gael gwared â rhwystrau i ddiogelwch personol wrth gerdded neu feicio, y syniad a ddaeth i’r amlwg ym mhob grŵp ffocws oedd gwell goleuadau ar lwybrau.

Dywedodd Amgueddfa Lechi Cymru:

- Rhoi goleuadau ar y llwybr lle mae hynny’n bosibl. Gellid defnyddio goleuadau LED a goleuadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd
- A oes modd sicrhau signal ffôn symudol ar y llwybrau, fel bod pobl yn teimlo'n fwy diogel?

Dywedodd Ysgol Gynradd Johnston:

- Gallem gael llygaid cathod ar hyd y llwybrau cerdded a beicio, felly gallai gyrwyr ceir ein gweld pan fyddem yn beicio i'r ysgol.

## Cynnal a chadw llwybrau

Awgrymodd Ysgol y Bynea welliannau cynnal a chadw llwybrau gan gyfeirio’n benodol at glirio sbwriel a baw cŵn.

Dywedodd Ysgol y Bynea:

- Rhagor o finiau baw cŵn. Gall y sefyllfa bresennol yn yr ardal leol wneud cerdded neu feicio i unrhyw le yn eithaf peryglus.
- Rhagor o finiau sbwriel a chynlluniau clirio sbwriel. Gall beicio dros ganiau a photeli gwag achosi pynjars, ac mae lefelau uchel o sbwriel yn gwneud cerdded yn annymunol iawn.

# Cefndir a demograffeg y grwpiau ffocws

## 1. Amgueddfa Lechi Cymru Blaenau Ffestiniog.

O'r 22 cyfranogwr, roedd 11 yn ferched ac 11 yn ddynion. Roedd y grŵp yn cynnwys:

- Rhieni
- Pobl ifanc
- Pobl hŷn
- Pobl ag anableddau

Pobl sy'n teithio mewn ffyrdd llesol a theithwyr nad ydynt yn teithio mewn ffyrdd llesol

Roedd pedwar aelod o'r grŵp yn cerdded i'r gwaith yn rheolaidd

Roedd dau aelod o'r grŵp weithiau'n beicio i'r gwaith

Roedd pum aelod o'r grŵp yn berchen ar feic

## 2. Ysgol Gynradd Johnston. Hwlffordd, Sir Benfro

O'r 27 cyfranogwr, roedd 13 yn ferched ac 14 yn ddynion. Roedd gan bedwar o'r cyfranogwyr anableddau dysgu ac roedd dau ar gyngor yr ysgol. Roedd y grŵp yn cynnwys ::

- Pobl ifanc
- Pobl ag anableddau

Pobl sy'n teithio mewn ffyrdd llesol a theithwyr nad ydynt yn teithio mewn ffyrdd llesol

Roedd 13 aelod o'r grŵp yn cerdded i'r ysgol yn rheolaidd

Roedd deg aelod o'r grŵp weithiau'n beicio i'r ysgol

Roedd 21 aelod o'r grŵp yn berchen ar feic

Roedd 19 aelod o'r grŵp yn mynd mewn car i'r ysgol

## 3. Pobl yn Gyntaf Sir Benfro. Preseli Sir Benfro

Roedd naw o gyfranogwyr. Pump o ferched a phedwar o ddynion, pob un ohonynt yn cael eu nodi'n anabl.

Pobl sy'n teithio mewn ffyrdd llesol a theithwyr nad ydynt yn teithio mewn ffyrdd llesol

Nid oedd yr un aelod o'r grŵp yn cerdded yn rheolaidd

Roedd un aelod o'r grŵp weithiau'n beicio

Roedd dau aelod o'r grŵp yn berchen ar feic

Oherwydd y drafodaeth yn ystod y grŵp ffocws, mae Pobl yn Gyntaf Sir Benfro wedi penderfynu dechrau grŵp cerdded i annog cerdded a gwella hyder

## 4. Eglwys Cwm Cynon. Aberpennar, Cwm Cynon

O'r 6 cyfranogwr, roedd dwy yn ferched a phedwar yn ddynion. Roedd y grŵp yn cynnwys:

- Pobl hŷn
- Pobl ag anableddau

Pobl sy'n teithio mewn ffyrdd llesol a theithwyr nad ydynt yn teithio mewn ffyrdd llesol

Nid oedd gan yr un o’r cyfranogwyr feic ac nid oeddent yn beicio

Roedd pump o’r cyfranogwyr yn cerdded yn rheolaidd

## 5. Ysgol y Bynea, Llanelli

33 o ddisgyblion yn y grŵp. Roedd y grŵp yn cynnwys:

- Pobl ifanc

Pobl sy'n teithio mewn ffyrdd llesol a theithwyr nad ydynt yn teithio mewn ffyrdd llesol

33 o ddisgyblion yn y grŵp

Honnodd 14 eu bod yn teithio i'r ysgol ar feic neu ar droed o bryd i'w gilydd.

Dywedodd 31 y byddent yn hoffi teithio'n llesol yn amlach

Cynhaliwyd y grŵp ffocws hwn gan yr ysgol. Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig o'r drafodaeth